Ar ôl eich archwiliad colposgopi

Mae'r daflen yma'n cynnig gwybodaeth a chyngor i'ch helpu ar ôl i chi gael archwiliad colposgopi, gyda biopsi neu heb un.

Beth allech chi ei ddisgwyl ar ôl colposgopi

Efallai y byddwch chi'n teimlo poen ysgafn fel poen mislif, a gallwch chi gymryd eich meddyginiaeth dros-y-cownter arferol i leddfu'r boen.

Efallai y bydd peth rhedlif o'ch gwain. Gallai'r rhedlif fod yn lliw brown os cafodd ïodin ei ddefnyddio yn ystod yr archwiliad, neu'n lliw llwyd/arian os cawsoch chi biopsi.

Byddai'n syniad i chi wisgo pad neu dywel mislif rhag i'r rhedlif staenio'ch dillad.

Os cafodd biopsi ei gymryd, dylech chi osgoi defnyddio tamponau tan ar ôl eich mislif nesaf. Dylech chi hefyd beidio â chael rhyw am wythnos.

Yr adeg i ofyn am fwy o gyngor

Os ydych chi'n gwaedu'n drwm (heblaw am eich mislif) neu fod gennych chi redlif annymunol, twymyn neu rydych chi'n teimlo'n wael, dylech chi gysylltu â'ch meddyg neu'r clinig colposgopi. Gwnewch hynny hefyd os ydych chi'n cael poenau yn rhan isaf eich abdomen ac nid yw'ch cyffur dros-y-cownter arferol yn lleddfu'r boen.

Fyddaf i'n cael fy ngweld eto?

Fe fydd eich Colposgopydd yn rhoi gwybod i chi, mewn llythyr fel arfer. Efallai na fydd angen i chi gael eich gweld yn y clinig eto, ond efallai y bydd angen i chi ddod eto i gael adolygiad neu driniaeth ychwanegol.

Sut ddylwn i gysylltu â fy nghlinig colposgopi?

Mae enw a rhif ffôn y person cyswllt yn eich clinig yn dilyn.